

**Tasg 1**

## Ffaith neu farn?

1. Ysgrifennwch **Ffaith** neu **Barn** yn y grid.

		<b>Ffaith? Barn?</b>
a.	Mae ysgol yn Lloegr yn dysgu gwersi byr.	
b.	Mae gwersi byr yn syniad da iawn.	
c.	Mae gwersi 60 munud yn rhy hir.	
ch.	Mae'r disgyblion yn cael egwyl ar ôl 8 munud.	
d.	Yna, maen nhw'n gwneud chwaraeon.	
dd.	Mae chwaraeon yn hwyl.	
e.	Mae Matt yn cael gwersi 60 munud.	
f.	Mae'r ymennydd yn gweithio'n well os ydy e'n cael egwyl ar ôl 8 munud.	
ff.	Mae hyn yn ddiddorol iawn.	
g.	Rhaid i bob ysgol yng Nghymru ddilyn y patrwm yma.	

2. Sut ydych chi'n gwybod bod Matt yn hoffi'r syniad o gael gwersi 8 munud?



3. Beth ydych chi'n feddwl o'r cynllun yma?

Meddyliwch am hyn a gwnewch nodiadau – pwyntiau bwled. Cofiwch roi rhesymau hefyd.

Trafodwch y cynllun yma mewn grŵp.

## Geirfa

egwyl	break	ymennydd	brain
yn well	better	cynllun	scheme